# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

**RHAN 2**

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

**PENNOD 2**

CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Peidio â chynnal cynlluniau*

**32 Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau cyrff llywodraethu o dan adran 31**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan—

(a) bo plentyn, rhiant plentyn, neu berson ifanc wedi ei hysbysu am benderfyniad corff llywodraethu ysgol a gynhelir o dan adran 31, a

(b) bo'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn gwneud cais o fewn cyfnod rhagnodedig i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc, iddo benderfynu a ddylai dyletswydd y corff llywodraethu i gynnal y cynllun beidio.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylai'r corff llywodraethu beidio â chynnal y cynllun.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r corff llywodraethu a'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(4) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylai'r cynllun gael ei gynnal, rhaid i'r corff llywodraethu barhau i gynnal y cynllun.

(5) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu na ddylai'r cynllun gael ei gynnal, rhaid i'r corff llywodraethu beidio â chynnal y cynllun, yn ddarostyngedig i adran 33.